Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Our Ref: CX24-057

By Email: SeneddClimate@senedd.wales

20 Mawrth 2024

Annwyl Llŷr,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar berfformiad Dŵr Cymru, mae ein hymateb i'r argymhellion hynny sy'n berthnasol i CNC i'w weld isod:

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol, gan gynnwys Dŵr Cymru, nodi ffyrdd effeithiol o gyfleu dull Cymru o fynd i'r afael â gollyngiadau carthion o orlifoedd storm fel bo gan y cyhoedd well dealltwriaeth o'r dull gweithredu.**

Gallaf gadarnhau bod CNC, ynghyd â phartneriaid y Tasglu Gwella Ansawdd Dŵr, yn canolbwyntio ar ddiweddaru a rhoi gwybod am y cynllun gweithredu "Dealltwriaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus" dros yr ychydig fisoedd nesaf. Gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau i gwmnïau dŵr ar ddosbarthu gorlifoedd storm a gorlifoedd nas caniateir ym mis Hydref 2023 a chan bod y penderfyniad terfynol ar Gynlluniau Busnes Cwmnïau Dŵr yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni, mae angen datblygu cynllun cyfathrebu gan aelodau'r tasglu i hysbysu dealltwriaeth ehangach y cyhoedd, ac mae cyfle i wneud hynny nawr.

**Argymhelliad 9. Dylai Dŵr Cymru gyhoeddi manylion ei raglen waith i fynd i'r afael â gollyngiadau carthion sy'n deillio o orlif storm yn y tymor byr, canolig a hir. Dylai hyn gynnwys targedau uchelgeisiol ar gyfer cwblhau asesiadau ecolegol a rhoi diwedd ar y niwed amgylcheddol sy'n deillio o orlifoedd storm a ganiateir a rhai nas caniateir. Dylai Dŵr Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau ar gynnydd tuag at gyflawni yn rheolaidd.**

Rydym yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar gymhwyso ein canllawiau GN066 sy'n nodi sut i asesu gorlif. Disgwyliwn i'r cwmnïau gwblhau'r gwaith hwn erbyn 2030 a chynnig rhaglen o waith gwella. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar yr asesiadau hyn, gyda chynigion yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau busnes PR24. Disgwyliwn i gwmnïau flaenoriaethu'r asedau hynny sy'n achosi niwed i fuddsoddiad yn gyntaf. Rydym yn aros am benderfyniad terfynol gan Ofwat ynglŷn â chynlluniau busnes a fydd yn helpu i lywio maint a chyflymder y buddsoddiad.

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn pwerau gorfodi CNC i alluogi'r rheoleiddiwr i dderbyn ymgymeriadau amgylcheddol am dorri amodau trwyddedau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei ystyriaeth.**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Rydym yn croesawu cefnogaeth y Senedd i’r argymhelliad hwn. Wrth fynd ar drywydd rheoleiddio cynyddol a chyflymach, rydym wedi bod yn ceisio pwerau ychwanegol i ystyried sancsiynau sifil ar gyfer ystod ehangach o droseddau amgylcheddol, fel offeryn ychwanegol yn ein pecyn cymorth gorfodi.

**Argymhelliad 11. Dylai CNC adolygu ei ymateb rheoleiddiol ac amgylcheddol i’r materion yng ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi gyda’r nod o ddysgu gwersi. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad.**

Mae camau rheoleiddio yn parhau yn y gwaith yn Aberteifi. Rydym yn parhau i ymchwilio i achosion o dorri amodau trwydded ar y safle ac mae'r ymchwiliad hwn yn parhau. Ymdrinnir ag unrhyw achosion o dorri amodau’r drwydded yn unol â'n Polisi Gorfodi a Sancsiynau. Gall ymateb gorfodi gymryd sawl blwyddyn i ddod i ben ar ôl y drosedd amgylcheddol wreiddiol.

Rydym wedi sefydlu adolygiad o'n hymatebion ar y safle i nodi pwyntiau dysgu neu welliannau y gellir eu gwneud i’r broses, yn ogystal â nodi arfer da cyfredol. Rydym yn disgwyl gallu cyflwyno adroddiad o’r canfyddiadau i’r pwyllgor erbyn diwedd mis Mai.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, rhowch wybod i mi.

Cofion gorau

Clare

Clare Pillman
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.

Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Our Ref: CX24-057

By Email: SeneddClimate@senedd.wales

20 March 2023

Dear Llyr,

Further to your letter of 4 February on the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee's report on performance of Dŵr Cymru, please find below our response to those recommendations relevant to NRW:

**Recommendation 8. The Welsh Government and its key partners, including Dŵr Cymru, should identify ways to effectively communicate Wales' approach to tackling sewage discharges from storm overflows to improve public understanding of the approach.**

I can confirm that NRW, along with partners of the Better Water Quality Taskforce, are focussing on updating and communicating the action plan "Public understanding and engagement" over the next few months. We issued our guidance to Water companies on classification of storm overflows and unpermitted overflows in October 2023 and with final determination of Water Company Business Plans due later this year, there is a need, and opportunity to develop a communications plan from members of the taskforce to inform the wider public understanding.

**Recommendation 9. Dŵr Cymru should publish details of its programme of work to tackle sewage discharges from storm overflow covering the short, medium and long-term. This should include ambitious targets for completing ecological assessments and eliminating environmental harm from permitted and unpermitted storm overflows. Dŵr Cymru should commit to publishing reports on progress towards delivery periodically.**

We are working with Dŵr Cymru and Hafren Dyfrdwy on applying our guidance GN066 which sets out how to assess an overflow. We expect the companies to complete this work by 2030 and propose a programme of improvement works. Work has already begun on these assessments, with proposals being incorporated into PR24 business plans. We expect Companies to prioritise those assets causing harm for investment first. We await final determination of business plans from Ofwat which will help inform the scale and pace of investment.

**Recommendation 10. The Welsh Government should consider extending NRW's enforcement powers to enable the regulator to accept environmental undertakings for permit breaches under the Environmental Permitting Regulations (England and Wales) 2016. It should report back to the Committee on the outcome of its consideration.**

We welcome the Senedd's support in this recommendation. In our pursuit of progressive and faster regulation, we have been actively seeking additional powers to consider civil sanctions for a broader range of environmental offences, as an additional tool in our enforcement toolkit.

**Recommendation 11. NRW should review its regulatory and environment response to the issues at Cardigan Wastewater Treatment works with the aim of learning lessons. It should report back to the Committee on the findings of the review.**

Regulatory action is continuing at the works in Cardigan. We continue to investigate the permit breaches at the site and this investigation is ongoing. Any breaches will be dealt with in line with our Enforcement and Sanctions Policy. An enforcement response can take several years to conclude after the initial environmental offence.

We have established a review of our responses at the site to identify learning points or process improvements that can be made, as well as capturing current good practice. We expect to provide the committee with a report of the findings by the end of May.

In the meantime, if you have any further queries, please let me know.

Best Wishes

Clare

Clare Pillman
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.

Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.